Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu

# Dyfed-Powys

## Adroddiad ar Hapsamplu Cwynion

## Chwarter 2: Gorffennaf – Medi 2025

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cynnwys


**Cyflwyniad** ........................................ **Error! Bookmark not defined.**

**Ystadegau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu** **Error! Bookmark not defined.**

**Crynodeb o'r canfyddiadau** ........................................ **Error! Bookmark not defined.**

*Cadarnhaol* ........................................ **Error! Bookmark not defined.**
*Maes i'w wella* ........................................ **Error! Bookmark not defined.**

**Canfyddiadau'r Hapsampl** ........................................ **Error! Bookmark not defined.**

*Mis Gorffennaf – Y tu allan i atodlen 3: Plismona Bro* ........................................ 4
*Mis Awst – Y tu allan i atodlen 3: Ymchwiliadau* ........................................ 5
*Mis Medi – Y tu allan i atodlen 3* ........................................ 7

**Sylwadau'r Adran Safonau Proffesiynol** ........................................ **Error! Bookmark not defined.**

**Cyflwyniad**

Hapsamplwyd cyfres o achosion cwynion gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) rhwng y 1$^{af}$ o Orffennaf a'r 30$^{ain}$ o Fedi 2025.

Adolygodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfanswm o 12 o achosion cwynion caeedig a ddewiswyd ar hap yr ymdriniwyd â nhw gan yr Adran Safonau Proffesiynol rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2025. Prif ddiben y gwaith craffu hwn yw adolygu'n annibynnol bod y broses o gofnodi ac ymdrin â chwynion yn cydymffurfio â'r canllawiau a nodir gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, a bod y gwasanaeth a ddarperir i'r achwynydd yn rhesymol a chymesur.

Mae cefndir a phwrpas y gwaith hapsamplu craffu, ynghyd â sut mae'r hapsamplu yn cael ei gynnal, wedi'u manylu yn y Fframwaith Craffu ar Gwynion sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Gwnaeth Deddf Plismona a Throseddu 2017 a'r rheoliadau ategol newidiadau sylweddol i systemau cwynion a disgyblu'r heddlu. Cyflwynwyd nifer o newidiadau gyda'r nod o sicrhau system gwyno sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer ym mis Chwefror 2020.

Mae'r system gwyno wedi datblygu i gwmpasu ystod ehangach o faterion. Yn flaenorol, roedd y ffordd y diffiniwyd y term 'cwyn' yn golygu bod angen iddi ymwneud ag ymddygiad swyddog unigol. Nawr gellir gwneud cwyn am ystod llawer ehangach o faterion, gan gynnwys y gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu fel sefydliad. Y bwriad yw bod hyn yn cynyddu mynediad i system gwyno'r heddlu.

Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn disgwyl i heddluoedd ystyried yr wybodaeth y maent yn ei chadw am gwynion gan gadw bwriad y diwygiadau mewn golwg – rhwymedigaeth gadarnhaol i gynyddu mynediad a chasglu gwybodaeth sy'n galluogi heddluoedd a chyrff plismona lleol i ddysgu o gwynion a materion eraill.

### Ystadegau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Bob chwarter, mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn casglu data gan Heddlu Dyfed-Powys ynglŷn â sut maen nhw'n ymdrin â chwynion. Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn defnyddio'r data hyn i gynhyrchu bwletinau gwybodaeth. Mae'r rhain yn nodi perfformiad yn erbyn nifer o fesurau ac yn cymharu data pob heddlu â chyfartaledd yr heddlu mwyaf tebyg iddynt, a'r canlyniadau cyffredinol ar gyfer pob heddlu. Mae'r data i'w gweld ar ystadegau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yma: Llyfrgell Cyhoeddiadau | Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Mae cwynion yr ymdrinnir â nhw o dan Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 yn gymwys i gael eu hadolygu naill ai gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu neu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Fodd bynnag, nid oes gan gwynion yr ymdrinnir â nhw yn anffurfiol y tu allan i Atodlen 3 hawl i adolygiad.

Rhaid trin cwynion yr ymdrinnir â nhw y tu allan i ofynion Atodlen 3 gyda'r bwriad o'u datrys er boddhad yr achwynydd. Mae ymdrin â chŵyn y tu allan i ofynion Atodlen 3 yn rhoi cyfle i fynd i'r afael yn brydlon â'r pryderon y mae achwynydd wedi'u codi. Nid oes angen ymholiadau manwl ar gyfer rhai cwynion er mwyn mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, efallai mai dim ond esboniad y mae'r achwynydd yn dymuno ei gael, neu i'w pryderon gael eu nodi neu eu trosglwyddo. Efallai mai ymdrin â chwynion o'r fath y tu allan i Atodlen 3, yn brydlon, yw'r ffordd fwyaf effeithlon, effeithiol a buddiol o ddatrys y gŵyn. Gall hyn roi sicrwydd i'r achwynydd bod ei bryderon wedi eu nodi a'u datrys, gan ddarparu cyfle dysgu i'r heddlu o bosibl (ac, os yw'n briodol, i unrhyw unigolion cysylltiedig).

### Crynodeb o'r canfyddiadau

*Cadarnhaol*

- Roedd yr ymatebion a ddarparwyd gan yr Adran Safonau Proffesiynol yn fanwl ac yn cynnwys digon o wybodaeth i ddeall y camau a gymerwyd.

- Tystiolaeth o gyfathrebu da rhwng y rhai sy'n ymdrin â chwynion ac achwynwyr. Dilynwyd dulliau cysylltu dewisol yr achwynwyr.
- Roedd yr Adran Safonau Proffesiynol wedi bod yn gyson wrth ddilyn unrhyw sgyrsiau ffôn gyda negeseuon e-byst manwl yn ymdrin â'r hyn a drafodwyd a'r hyn y gallai'r achwynydd ei ddisgwyl nesaf, a oedd yn rheoli disgwyliadau.

*Maes i'w wella*

- Dylai goruchwylwyr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Adran Safonau Proffesiynol ynghylch unrhyw gamau gweithredu/canlyniad cwyn y maent wedi ymdrin â hi'n anffurfiol y tu allan i'r atodlen.
- Mewn rhai achosion, roedd yn anodd nodi beth oedd canlyniad y gŵyn neu a ydoedd wedi'i chyflawni, ac a oedd yr achwynydd yn fodlon â'r canlyniad.
- Mewn un achos, cysylltodd yr achwynydd â'r Heddlu yn dilyn canlyniad ei gŵyn yn awgrymu ei fod dal yn anfodlon â'r ffordd y cafodd ei drin tu allan i atodlen 3?

**Canfyddiadau'r Hapsampl**

*Mis Gorffennaf – Y tu allan i Atodlen 3: Plismona Bro*

| Rhif yr achos | Crynodeb o'r gŵyn | Y math o driniaeth | Sylwadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
|---|---|---|---|
| 1 | Mae'r achwynydd wedi derbyn llythyr wrth Heddlu Dyfed-Powys yn ei gynghori i gadw draw wrth unigolyn heb iddynt ymgynghori ag ef. | Y tu allan i atodlen 3 | • Mae'r achwynydd dal yn anfodlon â'r canlyniad.<br>• Cynghorodd Rhingyll Heddlu y byddai'r Adran Safonau Proffesiynol yn cysylltu ag ef mewn perthynas â'r gŵyn, ond doedd dim manylion o fewn y ffeil i ddweud bod hyn wedi'i wneud.<br>• Fe'i hystyriwyd yn amhriodol i gau tu allan i atodlen 3. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | Mae'r achwynydd yn anfodlon ag ymchwiliad yr heddlu i'w adroddiad am gi peryglus ei gymydog a materion ffensio. | Y tu allan i atodlen 3 | • Mae amseroldeb o'r cyswllt cychwynnol i'r Arolygydd yn cysylltu â'r achwynydd yn ymddangos yn anamserol.<br>• Y mae wedi ei ddatrys a'i drin yn briodol y tu allan i atodlen 3. |
| 3 | Honnir bod swyddogion o'r Tîm Plismona Bro wedi diystyru adroddiadau'r achwynydd am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol parhaus. Mae'r achwynydd hefyd yn anfodlon nad yw'r Heddlu'n ei ddiweddaru mewn perthynas â'r ymchwiliad. | Y tu allan i atodlen 3 | • A oedd yr Adran Safonau Proffesiynol yn dryloyw yn y broses gwyno? A oedd yr achwynydd yn ymwybodol y gallai'r gŵyn gael ei chofnodi'n ffurfiol? Nid yw hyn yn glir yn yr ohebiaeth ac ymddengys bod yr achwynydd dal yn anfodlon? |
| 4 | Mae'r achwynydd yn anfodlon â'r ffordd y siaradodd Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu ag ef. | Y tu allan i atodlen 3 | • Darparwyd disgwyliadau o ran pryd mae Rhingyll Heddlu'n debygol o gysylltu. Anawsterau o ran cysylltu â'r achwynydd. Mae'r achwynydd dal yn anfodlon.<br>• Ymholiad – a fyddai wedi bod yn fwy effeithlon cofnodi'r mater hwn o dan A3 o ystyried yr anawsterau o ran cysylltu â'r achwynydd? |
| 5 | Mae'r achwynydd yn honni bod Heddlu Dyfed-Powys yn osgoi ymchwiliad drwy farnu bod yr amgylchiadau'n rhai sifil. | Y tu allan i atodlen 3 | • Fe wnaeth oedi o ran dyrannu ymestyn y gŵyn y tu allan i atodlen 3.<br>• Ymateb da wrth y Rhingyll Heddlu ar yr alwad a'r e-bost cau gan yr Adran Safonau Proffesiynol i'r achwynydd. |

*Mis Awst – Ymchwiliadau y Tu Allan i Atodlen 3*

| Rhif yr achos | Crynodeb o'r gŵyn | Y math o driniaeth | Sylwadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Anfodlon ag ymateb yr Heddlu / diffyg diweddariadau mewn perthynas ag achos domestig a difrod troseddol. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Cytuno bod yr achos yn briodol i gael ei drin y tu allan i atodlen 3.<br>• Cyswllt cychwynnol prydlon gan yr Adran Safonau Proffesiynol.<br>• E-bost da gan yr Adran Safonau Proffesiynol, gan osod disgwyliadau.<br>• Canlyniad yn anhysbys? |
| 2 | Honnir bod yr achwynydd wedi'i fygwth. Mae'n anfodlon ag ymateb yr Heddlu a diweddariadau am yr ymchwiliad. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Gweithredu prydlon o'r dyrannu i'r Arolygydd.<br>• Ymdriniwyd â'r gŵyn o fewn 2 ddiwrnod.<br>• Mae'r canlyniad gan yr Arolygydd yn amwys iawn, felly nid yw'n sicr sut y cafodd yr gŵyn ei thrin. |
| 3 | Mae'r dioddefwr yn anfodlon â'r diffyg cyswllt a diweddariadau mewn perthynas â'i achos Cam-drin Domestig. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Roedd yr e-bost cychwynnol gan yr Adran Safonau Proffesiynol yn fanwl ac yn cynnwys digon o wybodaeth, megis cyngor diogelwch. Dilynwyd galwad ffôn gan e-bost.<br>• Cais gan Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu'n gofyn i'r achwynydd eu galw yn ôl yw'r e-bost olaf yn y ffeil. Ansicr beth yw canlyniad hyn? Roedd hyn 3 wythnos ar ôl penderfyniad y Triniwr Cwyn, sy'n dangos ei fod dal yn anfodlon? |
| 4 | Mae'r achwynydd yn anfodlon ag ymateb yr Heddlu a diffyg diweddariadau mewn perthynas ag ymosodiad yn erbyn ei fab. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Cafwyd caniatâd i fynd rhagddo â'r gŵyn.<br>• Canlyniad anhysbys. |
| 5 | Anfodlon ag ymateb yr Heddlu a diffyg diweddariadau ganddynt mewn perthynas ag achos ŵyr yr achwynydd. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Amserol iawn.<br>• Dilynwyd yr alwad gan e-bost – archwilio da.<br>• Darparwyd ymateb manwl iawn gan yr Adran Safonau Proffesiynol o ran pam ei fod wedi'i gau gan nad oes angen unrhyw weithredu pellach.<br>• Enghraifft dda o achos tu allan i atodlen 3. |

*Mis Medi – Y tu allan i atodlen 3*

| Rhif yr achos | Crynodeb o'r gŵyn | Y math o driniaeth | Sylwadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
|---|---|---|---|
| 1 | Atafaelwyd cyflenwad cyffuriau yn y maes awyr wedi'i gyfeirio at eiddo'r achwynydd. Mae'n anfodlon bod yr Heddlu wedi cyflwyno gorchymyn ymatal a darfod. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Ni dderbyniwyd canlyniad.<br>• A oedd tu allan i atodlen 3 yn ffordd briodol o drin at y diben a fwriadwyd o ystyried y ffrâm amser ar gyfer ymdrin â'r mater – a yw'n hybu hyder y cyhoedd? |
| 2 | Mae'r achwynydd yn anfodlon ei fod wedi'i arestio am ymosodiad. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Ni dderbyniwyd canlyniad.<br>• Amseroldeb – cymerodd dair wythnos i gydnabod y gŵyn. |
| 3 | Anfodlon bod ceir yn cael eu gweld yn cael caniatâd i yrru'n beryglus oherwydd rali a oedd wedi'i drefnu ac yn anfodlon â'r cyngor a roddwyd gan y triniwr galwadau. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Mae Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu wedi ymdrin â'r mater yn dda ac yn amserol.<br>• Dysgu priodol wedi'i nodi.<br>• Wedi'i drin yn dda. |
| 4 | Trosedd casineb canfyddedig lle'r oedd cymydog a'r achwynydd yn anghytuno ynghylch tir. Anfodlon ag ymateb yr Heddlu. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Dyddiad canlyniad wedi'i dderbyn ond dim manylion. |
| 5 | Anfodlon nad yw'r Heddlu'n ymateb i'w adroddiadau. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Ymddengys bod y gŵyn wedi'i recordio heblaw drwy ymchwiliad. Pam y lluniwyd y ffurflen benderfynu?<br>• Er yn fodlon â'r canlyniad, a oedd yr achwynydd yn ymwybodol fod ganddo hawl ar gyfer adolygiad? |

## Sylwadau'r Adran Safonau Proffesiynol

Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn cydnabod yr adroddiad ac yn cadarnhau y bydd yn cael ei rannu ymhlith y staff sy'n ymdrin â chwynion er mwyn sicrhau bod unrhyw wersi'n cael eu gweithredu a'u cydnabod.